



Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing



Adroddiad
Blynyddol
Grŵp Cynefin
2021-2022



Gair gan y Prif Weithredwr

Bu 2021-2022 yn flwyddyn heriol arall, o ganlyniad i'r pandemig. Fodd bynnag, hefo Tîm Arweinyddiaeth a Thîm Rheoli newydd yn eu lle, hoffwn adrodd bod y flwyddyn wedi bod yn hynod llwyddiannus, a chewch ragflas o'r hyn sydd wedi ei gyflawni wrth ddarllen yr Adroddiad Blynyddol hwn. Nid dyma'r unig her i ni fel busnes yn ystod y flwyddyn, pan welwyd ansicrwydd economaidd a arweiniodd at gynydd costau ag argaeledd deunyddiau adeiladu, cynnydd cyfraddau chwyddiant yn effeithio ar gostau byw a hefyd parhad yr argyfwng tai yn ein cymunedau cefn gwlad.

Parhau fu ein gwaith i gefnogi ein tenantiaid a'n cwsmeriaid, gan daclo materion megis dyledion, tlodi tanwydd a bwyd, unigedd a iechyd meddwl, atal digartrefedd, camdriniaeth domestig a mynediad i waith.

Dros y flwyddyn fe wnaethom gryfhau ein ymrwymiad i lais ein tenantiaid a'n cwsmeriaid yn ein penderfyniadau fel busnes. Erbyn hyn mae saith tenant yn aelod o'r Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau ynghyd â dau Aelod o'r Bwrdd. Parhau hefyd mae gwaith y Gweithgor Tenantiaid sydd yn cwrrd yn wythnosol. Mae eu barn yn bwysig wrth ddatblygu polisiau a gwneud penderfyniadau allweddol i'r busnes.

Mae gwelliant parhaus yn bwysig i ni. Diolch i bawb wnaeth ymateb i'r holiaduron bodlonrwydd a hefyd gymryd rhan mewn cyfweiliadau yn ystod y flwyddyn. Rydym yn cymryd y canlyniadau a sylwadau o ddifri wrth edrych ar sut gallwn wella ein gwasanaethau. Mae 88% o'n tenantiaid sydd wedi datgan eu bod yn ymddiried yn Grŵp Cynefin fel eu landlord yn golygu llawer i ni.

Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein cartrefi presenol, adeiladu o'r newydd a hefyd yn gwneud gwaith sydd yn gwella

effeithiolrwydd ynni ein cartrefi tra hefyd yn gostwng biliau tanwydd. Mae hyn yn rhan o'n strategaeth cynaladwyedd newydd, dogfen sydd yn mapio allan ein siwrne i fod yn ddi-garbon. Braff cael adrodd fod cynifer o Aelodau Bwrdd Rheoli a'n cydweithwyr eisioes yn bencampwyr llythrennedd carbon.

Trwy gydol y cyfnodau clo ac wedyn, mae ein cydweithwyr wedi ymateb yn wych. Hoffwn ddiolch iddynt am fynd y tu hwnt i'n disgwyliadau gan ddangos eu hymrwymiad nid yn unig i ni fel cymdeithas ond hefyd i ddiogelu ein tenantiaid, cwsmeriaid a'n cymunedau. Gwelwyd enghreifftiau arbennig sydd nid yn unig wedi ennill clod a diolch yn lleol, ond hefyd yn genedlaethol trwy nifer o wobrwyon, sydd yn cadarnhau ein lle fel cymdeithas dai gyda gwerthoedd cymdeithasol cadarn sydd yn byw ein gwerthoedd ag yn gweithio'n flaengar.

Mae fy niolch hefyd yn fawr i'n tenantiaid, cwsmeriaid, partneriaid yn yr awdurdodau lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu, benthycwyr, contractwyr, cymdeithasau tai eraill a Llywodraeth Cymru am eu cydweithrediad a chefnogaeth. Diolch hefyd i Aelodau Bwrdd Rheoli, Byrddau Rheoli yr is-gwmnïau, a Phwyllgorau am eu cefnogaeth ac am ddangos arweinyddiaeth strategol clir. Mae gennym gynlluniau uchelgeisiol ar gyfer y dyfodol ag wedi ymrwymo i barhau i fuddsoddi yn ein stoc tai, yn ein cymunedau a pharhau gyda'n ymrwymiad i ddarparu 'Mwy na thai'.



Gair o'r Gadair

Bu llynedd yn flwyddyn arall brysur i Fwrdd Rheoli Grŵp Cynefin, wrth i ni wneud ein gwaith yn drylwyr. Mae'r gwaith hwnnw yn cynnwys herio, cwestiynu a gwneud yn siŵr bod bob un penderfyniad yn un sy'n dilyn ethos gref Grŵp Cynefin o wthio parhaus i gynnig tai a gwasanaethau o safon i'n tenantiaid ac yn sicrhau dyfodol cadarn a llwyrchus i'r grŵp.

Rydyn ni yn lwcus o fod ag aelodau eithriadol ar ein bwrdd – arbenigwyr profiadol yn eu maes. Mae hyn yn golygu trafodaeth iach, procio ac ymchwil a thrafodaeth drylwyr bob tro. Daeth yn ddiwedd cyfnod dau aelod sydd wedi gwneud cyfraniad gwerthfawr i waith y bwrdd hefyd – John Arthur Jones a Chris Schoen. Hoffwn ddiolch o galon iddynt eu dau am eu gwaith – wastad yn holi a phrocio a'r ddau yn dod ag arbenigedd a phresenoldeb bywiog i'r bwrdd.

Nid cymdeithas dai gyffredin mo Grŵp Cynefin – does yr un arall yn cynnig ystod debyg o wasanaethau, o dai gofal ychwanegol i ddatblygiadau tai cymdeithasol, tai fforddiadwy, gofal gwirioneddol a chymorth ymarferol i denantiaid a chwsmeriaid ac arweinydd yn ei faes. Gyda chynlluniau uchelgeisiol fel Canolfan Lleu ar y gweill, mae Grŵp Cynefin




yn arweinydd sy'n gallu dod â phartneriaid at ei gilydd i greu pethau gwych.

Mae gan y Bwrdd bob ffydd yn ein Prif Weithredwr a'r Tîm Arweinyddiaeth newydd arbennig a ffurfiodd i arwain y grŵp i flwyddyn arall ddeinamig, llawn heriau a chyfleoedd.

Mae'n bleser gennym gyflwyno ein Adroddiad ar weithgareddau Grŵp Cynefin ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 o Fawrth, 2022.

Carys Edwards
Cadeirydd Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin



Mae Grŵp Cynefin yn weithredol ar draws chwe sir gogledd Cymru a gogledd Powys. Mae'r map yn dangos pa mor eang yw ein hardal weithredol, sydd nawr yn cynnwys tref Machynlleth.


Mae pob eicon tŷ ar y map yn dynodi stad, tai unigol, swyddfeydd neu ganolfan o eiddo Grŵp Cynefin.




Mwy na thai

Cyfarfodydd Tenantiaid

Cynhaliwyd 44 cyfarfod yn ystod y flwyddyn. Ar gyfartaledd 5 Tenant yn mynychu bob wythnos i drafod a rhoi barn ar amryw o bynciau.



Gwibdaith



Wedi teithio o 6 sir amgylch



Wedi ymweld â 41 stad



Wedi ymweld â 785 eiddo



Wedi siarad gyda 299 tenant

Hyfforddiant a Chyflogaeth

Bu i ni gynorthwyo 51 o denantiaid neu gwsmeriaid i fynd yn ôl i gyflogaeth neu hyfforddiant yn y flwyddyn 2021/22

18 cais 'Camau i gyflogaeth' gwerth £5,650.

“ Buasai wedi bod yn anodd iawn i mi ddychwelyd yn ôl i'r gweithle heb gymorth y cais. Roedd y cyfraniad ariannol a gefais er mwyn yn gyntaf mynychu cyfweiliadau ac wedyn gychwyn mewn swydd newydd sbon yn anghenrheidiol.

Roedd y syniadau paratoi am y broses cyfweld yn werthfawr ac yn agoriad llygad hefyd.

Grantiau Cymunedol

39 o geisiadau grant

Gwobrwyo £12,269.03 i 34 grŵp

Roedd y prosiectau eleni yn cynnwys clybiau chwaraeon, prosiectau garddio, gwelliannau i gyfleusterau cymunedol megis canolfannau a gerddi, a diwrnodau hwyl.

I ddarllen Adroddiad Blynyddol Tîm Mentrau Cymunedol, cliciwch yma



Sesiynau Gofal Ychwanegol

Dros 60 o sesiynau Cymdeithas Cynefin

Yn dilyn y pandemig, penderfynwyd creu 'Cymdeithas Cynefin' yn ein pump Cynllun Gofal Ychwanegol er mwyn ail ddechrau gweithgareddau wyneb yn wyneb.



y shed

- 77,000 o ymwelwyr
- Pedwar busnes newydd
- Un wobwr twristiaeth o fri
- 15 o adwerthwyr newydd yn siop Y Shed
- Cynnydd cyffredinol o 93% mewn gwerthiant
- Cynnydd o 100 y cant mewn digwyddiadau



HWB Dinbych

Canolfan Cymorth Cymunedol

Sefydlwyd Canolfannau Cymorth Cymunedol, prosiect peilot chwe mis a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru, BIPBC ac awdurdodau lleol, i helpu cymunedau yn dilyn Covid 19.

Profion Llif Unffordd a rannwyd o Hwb Dinbych, Mehefin 2021 – Mawrth 2022: 7835

Gwnaed 77 atgyfeiriad newydd ar gyfer unigolion i dderbyn cefnogaeth ychwanegol.

Presgripsiwn Cymdeithasol – Celf at Iechyd

Mae 40 o unigolion wedi cael cymorth drwy'r rhaglen Celf at Iechyd, gyda 180 sesiwn yn ystod y flwyddyn.



Grŵp Cerdded mewn partneriaeth â Mind Dyffryn Clwyd

Mae cyfanswm o 24 o sesiynau wedi cael eu cynnal.

Prosiect Ieuenctid Dinbych – Grŵp Babi a Rhiant

Roedd presenoldeb o 44 yn y prosiect wythnosol hwn rhwng Ionawr - Mawrth 2022.

Cefnogaeth Ddigidol

Cynhaliwyd 35 o sesiynau un i un i hybu hyder wrth ddefnyddio offer digidol.

Prosiect Coginio

Mae 10 o bobl yn mynychu'r cyrsiau'n rheolaidd i ddysgu sgiliau coginio cartref sylfaenol, i fagu hyder a helpu pobl i fynd allan eto ar ôl y cyfnodau clo.

Cefnogaeth Lles

Mae HWB Dinbych wedi gallu cefnogi cyfanswm o 20 o unigolion i gael mynediad at gymorth lles a ddarperir gan Gyngor ar Bopeth Sir Ddinbych.

Cefnogaeth Cyflogaeth

Mae Swyddog Cyflogaeth a Thai o 'Sir Ddinbych yn Gweithio' yn Hwb Dinbych ddau ddiwrnod yr wythnos i ddarparu cymorth cyflogaeth a chynghor ar dai. Mae Clybiau Gwaith wedi eu hail sefydlu ar ôl Covid gyda Chymunedau am Waith, Gyrfa Cymru a Job Sense. Cefnogwyd 45 o unigolion.

Congl Meinciau

92 Ymholiadau ar gyfer cymorth busnes, o'r rheiny, roedd 27 yn fusnesau newydd a 65 yn bodoli'n barod

6 Tenantiaid Grŵp Cynefin wedi derbyn cymorth busnes

4 Swydd Newydd

3 Tenantiaid newydd yn y Ganolfan: Therapi | Gill Bleas Marketing | Ynni Llŷn

32 Defnydd o'r ystafell gyfarfod

73 Defnydd desig boeth

£30,633.33

Cymorth Ariannol wedi ei dderbyn gan fusnesau lleol




Cyfathrebu

ApCynefin

Hyd yma, mae bron 500 o denantiaid y grŵp wedi lawrlwytho ap tenantiaid ApCynefin. Mae'n galluogi tenantiaid y gymdeithas i reoli eu tenantiaeth, rhoi gwybod am bethau sydd angen eu trwsio a hyd yn oed ddwyn sylw at ymddygiad anghymdeithasol.

Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r ap defnyddiol hwn sy'n rhoi mynediad a rheolaeth uniongyrchol i denantiaid o'u cyfrifon. Mae tenantiaid hefyd yn gallu defnyddio'r ap i baratoi cyllidebau a gweld a oes ganddynt hawl i dderbyn budd-dal neu gredydau treth.

Mae'n fwriad manteisio mwyfwy ar yr ap i gyfathrebu a rhannu gwybodaeth gyda thenantiaid.



Buddsoddi mewn gwefan newydd

Yn gynharach eleni, lansiwyd gwefan newydd sbon ar gyfer Grŵp Cynefin. Bu aelodau'r Uned Gyfathrebu yn cyd-weithio gyda chwmni Connect Internet Solutions i greu gwefan bwrpasol a fyddai'n dod a nifer o elfennau ynghyd a'u cyflwyno mewn ffordd ddeniadol, lliwgar ac eglur.

Mae'r wefan wedi ei rhannu yn adrannau sydd wedi eu labelu'n glir gyda thabiau lliwgar, o adran tenantiaid sy'n cynnig gwybodaeth a chyngor i'n tenantiaid o fewn adran bwrpasol, i wybodaeth am ein tai gofal ychwanegol a thai sydd ar gael. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth amdanom fel cwmni, a ffrwd ein cyfryngau cymdeithasol yn ogystal.

Mae'r wefan yn hollol hygyrch ac yn cael ei asesu'n barhaus i sicrhau bod y wybodaeth yn hawdd i ddod o hyd iddo a chywir.

Ein Cartrefi

Ehangu ardal

Ar ddechrau 2022, llwyddodd Grŵp Cynefin yn eu cais i ddod yn landlord newydd ar dros hanner cant o gartrefi ym Maldwyn. Daeth hyn oherwydd cynnig i drosglwyddo 53 o gartrefi ym Machynlleth a Llanbrynmair o reolaeth Wales & West Housing. Bellach, cwblhawyd y trosglwyddiad sy'n golygu bod Grŵp Cynefin wedi cymryd rheolaeth o'r stoc, sy'n gyfuniad o dai cymdeithasol a thai cysgodol. Mae ardal Grŵp Cynefin o ganlyniad nawr yn fwy eang nag erioed.

"Rydyn ni'n falch iawn gyda'r caffaeliad hwn. Rydyn ni'n ymfalchïo yn ein gwaith o gefnogi ein

tenantiaid a darparu gwasanaeth effeithiol ar eu cyfer," meddai Mel Evans, Cyfarwyddwr Arloesedd a Thwf, Grŵp Cynefin:

"Mae'n ymdrech barhaus i ni i ddarparu'r gefnogaeth a'r gwasanaethau gorau ac rydyn ni bellach ar waith yn cefnogi a chydweithio gyda'n tenantiaid newydd a'r gymuned leol ym Machynlleth."

Meddai Carys Edwards, Cadeirydd Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin: "Mae hwn yn gam cadarnhaol i Grŵp Cynefin ac mae'n gweddu i'r grŵp a Machynlleth. Rydyn ni'n rhoi pwyslais mawr ar leisiau tenantiaid, gyda chynrychiolaeth ar y Bwrdd a Phwyllgor Cwsmeriaid a Chymuned ymroddedig. Mae gan denantiaid lais cryf wrth ddatblygu strategaethau a datblygiadau o fewn y grŵp ac mi fydd hi'n hyfryd clywed acen Maldwyn ymhlith y lleisiau hynny!"



Llwyddiant yn casglu Rhent

O ganlyniad rhannol i'r Pandemig, adnabu Grŵp Cynefin bod ein dyledion rhent yn cynyddu gyda Rhagfyr 2020 yn dangos ein dyledion uchaf erioed.

Penderfynwyd bod rhaid gweithredu a sicrhau blaenoriaeth a ffocws. O ganlyniad i drafodaethau gyda staff, fe grëwyd tîm arbenigol gyda'r cyfrifoldeb o ganolbwyntio ar gasglu incwm. Rhoddwyd y tîm ar waith ym Mawrth 2021.

Bu'n llwyddiant mawr i sicrhau ffocws ar gynorthwyo tenantiaid i leihau dyledion – drwy gydweithio mewnol arbennig Swyddogion Casglu Incwm, Tîm Lles a Swyddogion Tai. O ganlyniad, gwnaeth dyledion leihau yn sylweddol.

Roedd dyledion net o ran swm a chanran ar ddiwedd Mawrth 2022 y lleiaf maent wedi bod, a gwelwyd gostyngiad sylweddol o gymharu blwyddyn a mwy.

Mae lleihad o dros £150,000 yn y dyledion gross ers blwyddyn (h.y. o Mawrth 2021 i 2022)

Mae ein canran gross eleni yn 2.42% yn llai nag oedd canran net yn 2.99% diwedd Mawrth llynedd, fel nodir yn y graff canlynol.

Rydym yn rhagweld bydd cynnal y perfformiad da yma yn her dros y misoedd nesaf yn sgil y cynnydd mewn costau byw, ond byddwn yn sicrhau cymorth i'n tenantiaid i geisio osgoi dyledion.

Datblygiadau

Llety' r Adar, Bethesda

Mae Llety' r Adar yn bartneriaeth rhwng Grŵp Cynefin, Cyngor Gwynedd a Llywodraeth Cymru, ac yn cynnig 17 o gartrefi newydd yn y dref, mewn datblygiad gwerth £2.5m.

Mae'r tai rhent cymdeithasol, sy'n agos at gludiant cyhoeddus cyfleus, caeau hamdden a llwybr beicio Lôn Las Ogwen, yn cynnwys 8 cartref dwy ystafell wely, 5 byngalo dwy ystafell wely, 3 cartref tair ystafell wely ac 1 cartref pedair ystafell wely.

Mae'r cartrefi yn cael eu gosod fel tai cymdeithasol, wedi eu hariannu'n rhannol drwy grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac wedi eu hadeiladu gan y contractwyr lleol, Gareth Morris Construction. Mae'r cartrefi, sy'n cael eu hadeiladu'n dynn i safonau carbon isel, yn sicrhau bod yr holl eiddo yn y cynllun yn cwrrd â dulliau modern o adeiladu a chynaliadwyedd.



Gerddi Bach, Waunfawr



Maes Dulyn, Penygroes

Stad o 21 tŷ newydd ym Mhenygroes yw Maes Dulyn.

Mae'r tai, sy'n cael eu hadeiladu gan Williams Homes, Y Bala, yn enghraifft o sut byddwn yn adeiladu tai i'r dyfodol.

- Pwyntiau i wefru ceir trydan
- Pwmpiau ffynhonnell aer i wresogi'r tai
- Insiwleiddio o'r safon uchaf
- Paneli solar



Llain y Delyn, Gwalchmai

Stad o ddeg tŷ ar gyfer teuluoedd lleol yn Ynys Môn ydi Llain y Delyn, Gwalchmai. Gyda chymysgedd o 2 fyngalo un ystafell wely, 2 fyngalo dwy ystafell wely, 4 tŷ dwy ystafell wely a 2 dŷ tair ystafell wely, roedd cyfle i amrywiaeth o bobl ymgeisio am gartref ar y stad.

Mae'r sustem wresogi a chynhesu dŵr ym mhob tŷ yn rhedeg o sustem pwmp gwres ffynhonnell aer.



Mae'r datblygiad £1.85 miliwn yn bartneriaeth rhwng Grŵp Cynefin a Chyngor Sir Ynys Môn, yn cael ei ariannu'n rhannol trwy grant tai cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a'i adeiladu gan BC Services.

Awel y Dyffryn

Fe agorodd cynllun tai gofal ychwanegol Awel y Dyffryn, Dinbych ei ddrysau i'r trigolion cyntaf yn Ionawr 2022 wrth i'r cynllun gwerth £12 miliwn gael ei gwblhau.

Mae'n cynnwys 42 o fflatiau dwy ystafell wely a 24 o fflatiau un ystafell wely ar gyfer pobl hŷn sydd eisiau byw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain. Ond mae gofal a chefnogaeth ar gael, pe bai angen. Yn ychwanegol, mae cynllun tai â chefnogaeth ar y safle sy'n darparu gofal a chymorth 24 awr i wyth o bobl.



Bu Grŵp Cynefin yn ofalus i warchod rhai o nodweddion yr adeilad gwreiddiol a'u hymgorffori yn yr adeilad newydd.

Datblygiad ar y cyd mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ddinbych gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yw Awel y Dyffryn, a datblygwyd y safle gan y contractwr lleol, R L Davies a'i Fab Cyf o Fae Colwyn.

Roedd 88 % o'r gwaith a roddwyd i is-gontractwyr yn ystod datblygu Awel y Dyffryn yn dod o Gymru, gyda 50 % o'r is gontractwyr wedi eu lleoli o fewn 30 milltir i'r safle. Treuliwyd cyfanswm o 136 wythnos yn hyfforddi gweithwyr yn ystod y datblygiad, gan sicrhau bod y genhedlaeth nesaf o weithwyr yn cael digon o gyfleoedd i feithrin a datblygu sgiliau.

Gweledigaeth am ganolfan arloesol

Fis Mawrth eleni, cyhoeddodd Grŵp Cynefin ddogfen weledigaeth yn datgelu manylion cynllun £38 miliwn ym Mhenygroes, Gwynedd.

Grŵp Cynefin sy'n arwain ar y prosiect uchelgeisiol, a enwyd yn 'Canolfan Lleu' am y tro, gyda'i bartneriaid Cyngor Gwynedd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Theatr Bara Caws yn chwarae rhan ganolog yn y cynlluniau.

Mae'r ddogfen yn manylu ar eu gweledigaeth ar gyfer canolfan gymunedol arloesol yng nghanol Penygroes, i wasanaethu'r pentref, holl gymunedau Dyffryn Nantlle a thu hwnt. Nod Canolfan Lleu yw cryfhau cymunedau ar draws y dyffryn, gan gefnogi iechyd a llesiant pobl drwy amrywiaeth o wasanaethau traddodiadol ac ataliol. Bydd yn cynnig lle i gymdeithasu a chysylltu pobl, un lleoliad i gael mynediad i wasanaethau iechyd, tai, gwasanaethau cymunedol a gwasanaethau'r cyngor, gan gryfhau'r economi leol.

Bydd y safle ei hun yn cynnig:

- Cartref preswyl 36 gwely
- 17 o fflatiau byw'n annibynnol
- Gwasanaethau meddygol craidd gyda fferyllfa gymunedol a gwasanaeth deintyddol yn rhannu'r adnoddau
- Gwasanaethau iechyd cymunedol traddodiadol ac ataliol
- Mannau amlbwrpas i bobl ifanc, gwasanaethau cymorth a mannau i'r trydydd sector ddarparu darpariaeth allgymorth
- Swyddfeydd newydd Grŵp Cynefin sy'n cynnwys mannau addas ar gyfer gweithio modern a hyblyg
- Cartref newydd i Theatr Bara Caws gan gynnwys swyddfeydd, gofod ymarfer a theatr
- Mannau i hyrwyddo gweithgareddau pontio'r cenedlaethau

Bydd y safle cyfan yn cynnwys mannau gwyrdd a hefyd yn anelu at fod yn garbon sero net, gan ddefnyddio deunyddiau cynaliadwy o ffynonellau lleol gydag egwyddorion economi gylchol ar waith.



Rhoi tystiolaeth i Bwyllgor Senedd Cymru

Ym mis Mawrth, gwahoddwyd y Prif Weithredwr Grŵp Cynefin i roi tystiolaeth i Bwyllgor Llywodraeth Leol a Thai Senedd Cymru. Roedd Shan Lloyd Williams yn ymateb i adroddiad Dr Simon Brooks, **Ail gartrefi: datblygu polisïau newydd yng Nghymru** yng nghyfarfod **Ymchwiliad i ail gartrefi: sesiwn dystiolaeth landlordiaid a grwpiau cymunedol** y Senedd.

Croesawodd Shan Lloyd Williams argymhellion adroddiad Dr Brooks gan nodi bod Grŵp Cynefin wedi cymryd rhan allweddol wrth ymateb i ymgynghoriadau ers rhyddhau'r adroddiad yn ogystal. Ond lleisiodd ar angen am frys wrth ymateb i'r argyfwng tai.

“Mae angen ychydig bach mwy o gyflymder o ran sut ydyn ni yn mynd i fod yn ymateb i'r argymhellion neu y peryg ydi y byddan ni wedi colli yr ewyllys da sydd o fewn cymunedau,” rhybuddiodd.

Nododd hefyd y ffactorau eraill sy'n golygu bod angen ystyriaeth arbennig wrth drafod adeiladu cartrefi i ymateb i'r argyfwng, gan gynnwys argaeledd a phrisiau tir, a'r her o ddenu contractwyr addas i ymgymryd a'r gwaith.

“Does gan y cwmnïau adeiladu o'r maint sydd angen i ddatblygu tai ddim diddordeb mewn dod i ardaloedd cefn gwlad,” meddai. “Mae'r costau yn mynd i fod yn uwch a'u proffid yn mynd i fod yn llai. Mae angen cyd-weithio felly hefo contractwyr bach lleol a rhoi'r hyder iddyn nhw i fod yn tendro ac yn cyd-weithio yn well hefo'i gilydd.”

Uned fusnes ydi Gorwel sy'n darparu gwasanaethau o safon i gefnogi pobl sy'n dioddef trais yn y cartref neu gefnogi pobl rhag colli ei cartref ac atal digartrefedd. Yn ddiweddar, penodwyd Prif Swyddog newydd, Osian Elis.

Gyda chynnydd o 35 % y cant yn nifer y rhai gyfeiriwyd atynt o Wynedd a Môn yn ystod y pandemig, derbyniwyd £150,000 gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru Andy Dunbobbin. O ganlyniad, penodwyd tri Chynghorydd Cam-drin Domestig Annibynnol (CCDA) newydd, gan gynnwys aelod gwrywaidd cyntaf eu tîm CCDA a swyddog plant a phobl ifanc gwrywaidd.

Yn ystod y flwyddyn sefydlodd Gorwel gynllun peilot CCDA Iechyd, ar y cyd â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwalader i ddarparu cymorth a chynghor uniongyrchol sy'n seiliedig ar drawma i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n gleifion yn Ysbyty Gwynedd. Mae'r CCDA wedi'i leoli yn Ysbyty Gwynedd, yn eistedd o fewn y tîm diogelu ac yn gweithio'n agos ochr yn ochr â staff yr ysbyty,

gan ddarparu hyfforddiant, cyngor arbenigol a chodi ymwybyddiaeth i gefnogi datgelu cam-drin domestig.

Yn ystod y flwyddyn datblygwyd lloches newydd yng Ngwynedd, 4 unedau gwasgaredig ychwanegol i ateb y galw cynyddol

Nod cynllun Pobl Hŷn, Ynys Môn yw darparu cefnogaeth sy'n gysylltiedig â thai i bobl 55 oed a hŷn i alluogi pobl i fyw mor annibynnol a phosib ac i atal digartrefedd.

Yn ystod y flwyddyn comisiynydd ymarfer annibynnol, Gwaddol Cymdeithasol yn Sgil Buddsoddiad (GCSB) ar ddarpariaeth pobl hŷn. Dull yw GCSB o fesur gwerth digwyddiad, prosiect neu wasanaeth mewn cymuned a gwneud hyn trwy gymryd i ystyriaeth bethau nad ydynt fel arfer yn cael eu mesur mewn termau ariannol e.e. cynnig cyfleon, gwella safon byw neu agor drysau i gymdeithasu. Adroddwyd yn yr ymarfer bod £6.14 o werth cymdeithasol wedi ei greu am bob £1.00 a fuddsoddiwyd yn y gwasanaeth.

[Cliciwch yma i ymweld â gwefan Gorwel](#)

Stori Bill (Gwasanaeth Atal Digartrefedd, Pobl Hŷn)

Sut daethoch chi i gyswllt â Gorwel yn y lle cyntaf?

Aeth pethau o chwith tra roeddwn i mewn priodas wael lle'r oedd camdriniaeth yn mynd yn ei flaen.

Deuthum i gysylltiad â Gorwel yn ôl yn 2017 - roeddwn i yn fy 60au hwyr. Roedd gen i broblemau gyda fy iechyd meddwl ac mae gen i anableddau, ond rwy'n hoffi garddio a chymerais ran mewn prosiect garddio.

Beth wnaeth Gorwel i helpu?

Bu'r garddio yn help mawr gyda fy iechyd meddwl. Deuthum allan o fy nghragen a chwrdd â phobl. Maen nhw wedi gwneud llawer gyda mi o safbwynt fy nghartref hefyd. Mae gen i weithiwr cymorth ac mae o wir wedi helpu gyda llawer o wahanol faterion.

Beth yw eich gobeithion ar gyfer y dyfodol?

Hoffwn fynd yn ôl i'r rhandir. Fydda i ddim yn gallu gwneud llawer o'r gwaith ond gallaf oruchwyllo!

Rwy'n ymwneud â'r prosiect "Gallaf". Rwy'n siarad â rhywun sy'n byw yng Nghaerdydd bob wythnos ar y ffôn. Mae gennym ddiddordebau tebyg ac rydym yn siarad am oddeutu awr.

Beth fydddech chi'n ei ddweud wrth unrhyw un arall sy'n mynd drwy amser anodd ac ystyried cysylltu?

Byddwn yn dweud wrthynt am gysylltu â Gorwel – mi wnes i ac fe wnaethant fy helpu.



Stori Megan

Ciplun 1: Arolwg staff 2021 Gwrando ar Gorwel

Cymerodd **81%** o gydweithwyr amser i ddweud eu dweud a chwblhau'r arolwg - Diolch i bob un o'r 55 ohonoch a roddodd eich adborth i ni, ac a fynychodd sesiynau grŵp ffocws, rydym yn gwerthfawrogi'ch amser a'ch barn yn fawr.



Lefelau uchel o ymgysylltiad ymhlith gweithwyr – "lle gwych i weithio"

Dywedodd 46 ohonoch wrthym beth sy'n gwneud Gorwel yn lle gwych i weithio. Mae pethau i'w gwella bob amser ac roedd gan lawer ohonoch awgrymiadau ynglŷn â beth fyddai'n ei wneud yn lle gwell i weithio, gan ddangos lefelau uchel o ymgysylltu â sut mae Gorwel yn cael ei redeg a chyda'i lwyddiant.

Roedd ychydig dros **96%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf eich bod yn teimlo'n falch o waith Gorwel



Ein gwerthoedd

Roedd **87%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf fod eich cydweithwyr yn Gorwel wirioneddol yn byw gwerthoedd y sefydliad.

Roedd **96%** yn cytuno neu'n cytuno'n gryf eich bod yn teimlo fod eich cydweithwyr yn parchu eich barn a'ch gwahaniaethau.



Fy Lles

Roedd **92%** o gydweithwyr rheng flaen yn cytuno / cytuno'n gryf bod sesiynau goruchwyllo clinigol yn dda i'ch lles.

Roedd **17%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf bod terfynau amser eich gwaith yn afrealistig.



Fy Nhîm

Roedd **93%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf eich bod yn helpu pobl eraill yn y gwaith yn rheolaidd hyd yn oed os nad dyna oedd eich swydd arferol ac y gallech ddibynnu ar eich tîm i'ch helpu neu i roi cymorth pan fyddwch ei angen.



Fy Rheolwr

Roedd **89%** yn cytuno/cytuno'n gryf fod eich rheolwr yn fodel rôl ardderchog, a bod eich rheolwr yn mynegi gwerthfawrogiad yn rheolaidd pan fyddwch chi'n gwneud gwaith da.



Twf Personol

Roedd ychydig dros **88%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf fod gweithio i Gorwel yn dda i'ch datblygiad gyrfa.

Roedd **100%** ohonoch yn cytuno/cytuno'n gryf fod gennych y sgiliau sydd eu hangen arnoch i wneud y swydd yn dda.



Cefnogi ein Pobl

Anelu at amrywiaeth

Wrth fynd rhagddo gyda'r gwaith o lunio Strategaeth Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Grŵp Cynefin, mae'r grŵp a neilltuwyd i'r dasg yn gweithio i yrru'r agenda bwysig hon yn ei blaen.

Mae'r grŵp, a gadeirir gan y Prif Weithredwr yn cynnwys amrywiaeth o gynrychiolwyr ar draws y grŵp, ein is-gwmnïau, Bwrdd Rheoli, tenantiaid a chwsmeriaid yn creu datganiad o fwriad ac yn cydweithio gyda Tai Pawb a'r Ganolfan Genedlaethol dros Amrywiaeth. Rydym wedi ymrwymo i adduned Tai Pawb, 'Deeds not Words,' gan anelu i dacio hiliaeth o fewn y cymunedau lle rydym yn yn darparu cartrefi ac yn byw ynddyn nhw.

Yr amcan yw sicrhau bod tegwch i bawb wrth graidd ein gweithgareddau, o recriwtio staff newydd, i ddarparu gwasanaethau a'n diwylliant fel cwmni.

Mae Grŵp Cynefin yn adrodd ar Fwlch Cyflog Rhywedd o 12.9% eleni, sy'n golygu bod y dynion o fewn Grŵp Cynefin yn cael cyflog sy'n 12.9% yn uwch na menywod Grŵp Cynefin. Y dadansoddiad o hyn yw bod canran uchel o'r gweithlu yn fenywod



sy'n gweithio o fewn y chwarter sy'n ennill y cyflogau isaf. Rydyn ni yn falch o adrodd o holl staff Grŵp Cynefin bod:

- 83% wedi cwblhau hyfforddiant Cydraddoldeb
- 80% wedi cwblhau hyfforddiant Rhagfarn Anymwybodol (Unconscious Bias)
- 50 aelod staff wedi cwblhau hyfforddiant fframwaith PIE*

*fframwaith Amgylcheddau sy'n Ystyriol o Gyflwr Seicolegol (Psychological Informed Environment)

Hyfforddiant a Chyfleoedd

Mae Grŵp Cynefin yn falch o'r gwaith i gynnig cefnogaeth cyflogaeth ychwanegol i denantiaid a thrigolion. Dyma rai o ganlyniadau 2021/2022:

1. Saith cyfle dechrau newydd ar draws y grŵp gan gynnwys pedwar o fewn Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych. Mae un o'r swyddi, yng Nghongl Meinciau, wedi'i hymestyn o chwe mis.

2. Mae un rôl brentisiaeth ers mis Mawrth 2022 wedi ei lleoli yn swyddfa Grŵp Cynefin yn Llangefni. Bydd y Prentis Rhent ac Incwm, Elfyn Owen, 17, yn eistedd o fewn adran dai Grŵp Cynefin am gyfnod o ddwy flynedd.

Llesiant Cydweithwyr

Mae llesiant ein cydweithwyr yn parhau i fod yn flaenllaw o fewn Grŵp Cynefin. Bu gweithgareddau Byd o Les yn cynnig sesiynau amrywiol, o ddelio gyda straen i weithdy ar lesiant a chynghor ariannol.

Cynhaliwyd yn ogystal gyfres o ioga rhithiol gyda Ceri Lloyd.

Yn gyffredinol, hyrwyddir sgwrsio agored am iechyd meddwl trwy gefnogaeth a gonestrwydd gan gyfarwyddwyr, rheolwyr a chydweithwyr.

Mae iechyd meddwl a llesiant yn cael ei hyrwyddo mewn ffordd gadarnhaol, gan annog pobl i fod yn rhagweithiol ac i ychwanegu ymarfer corff, gorffwys neu unrhyw weithgaredd y maent yn teimlo sydd o fudd iddynt i'w trefn arferol. Mae dulliau gweithio ystwyth yn caniatáu a rhwyddhau hyn.

Mae Adnoddau Dynol hefyd yn cynnig gwasanaeth cownsela allanol yn rhad ac am ddim os oes ei angen gan staff.

Manteisiodd 165 aelod o staff Grŵp Cynefin ar gyrsiau hyfforddi yn ystod y flwyddyn. Roedd yr hyfforddiant yn amrywio mewn pynciau a fformat, o rai rhithiol i wyneb yn wyneb. Ymhlith yr hyfforddiant roedd;

Ymwybyddiaeth Risg ac Yswiriant, Taliadau Gwasanaeth, Budd-dal Tai, Credyd Cynhwysol a Gwasanaeth Cwsmeriaid, Cynhadledd Rheolaeth Tai a Threchgu Digartrefedd, Dyfodol y Gweithle, Digwyddiad Cynhwysiant Hiliol ac Amrywiaeth yn y Gweithle, Seminar Adfywio Cymunedol, Cynhadledd Tai yn Gyntaf Cymru 2021, Creu Straeon Digidol, A Datrys Problemau mewn Byd Gweithio Hyblyg.

Ein is-gwmnïau

Mae Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn helpu perchnogion tai hŷn a thenantiaid preifat i atgyweirio, addasu a chynnal eu cartrefi i'w galluogi i fyw yn annibynnol, yn gysurus, cynnes a diogel. Darperir cynghor ynglŷn â :

- budd-daliadau lles
- gwresogi
- cynnal a chadw ac atgyweirio
- addasiadau

Canllaw

[Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn](#)



Mae Canllaw (Eryri) Cyf yn un o is-gwmnïau Grŵp Cynefin sy'n rheoli asiantaeth Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn.

Yn y flwyddyn 21-22 cafodd 2956 o bobl gymorth gan Canllaw i addasu eu cartrefi.

[Cliciwch yma i ymweld â gwefan Canllaw](#)

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

Yn y flwyddyn 21-22 cafodd 4,273 o bobol gymorth gan Gofal a Thrwsio i addasu eu cartrefi.

[Cliciwch yma i ymweld â gwefan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych](#)



Ffigyrau 2021/2022 ar gyfer Gwasanaeth HIA Sir Ddinbych a'r Rhaglen Addasiadau Brys

Gwell Cartrefi, Gwell Iechyd

Helpu pobl hŷn i barhau'n ddiogel, yn gynnes ac yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain

Dywedodd **72%** o gleientiaid eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol a hyderus o ganlyniad i wasanaeth Gofal a Thrwsio

14 diwrnod

Ar gyfartaledd, caiff gwaith y Rhaglen Addasiadau Brys ei gyflawni o fewn

£1 → **£7.50**

Am bob £1 a wariwyd ar y Rhaglen Addasiadau Brys, arbedwyd £7.50 ar gyllidebau lechyd a Gofal Cymdeithasol

Ffoniwch ni ar 0300 111 2120

1,830

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych Conwy and Denbighshire Care & Repair

79

Oedran cyfartalog y bobl a gynorthwywyd

Nifer o bobl rydym wedi eu helpu

96%

o glientiaid yn fodlon iawn â'r gwasanaethau a ddarparwyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych

60%

Fe wnaethom helpu 60% o bobl gyda gwaith i geisio lleihau codymau

99%

a fyddai'n argymhell gwasanaeth Gofal a Thrwsio i eraill

Grŵp Cynefin
Mwy na thai • More than housing

Nodir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government




Strategaeth Cynaliadwyedd

Defnyddiwyd Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio (Optimised Retrofit Programme) Llywodraeth Cymru o £447,175 i wneud gwaith gwella ynni effeithlonrwydd mewn 60 o gartrefi, yn cynnwys uwchraddio systemau gwresogi.

Grŵp Cynefin yn addunedu i ddyfodol gwyrdd

Mae Grŵp Cynefin wedi addunedu i leihau allyriadau carbon o 4% bob blwyddyn hyd at gyflawni sero net erbyn y flwyddyn 2044. Yn ogystal â hyn, mae Strategaeth Cynaliadwyedd y grŵp hefyd yn anelu i gyflawni'r canlynol:



“
Meddai Mel Evans,
Cyfarwyddwr Arloesedd
a Thwff Grŵp Cynefin:

Mae'r rhain yn dargedau uchelgeisiol ond yn rhai y byddwn yn gwthio i'w cyflawni. Mae'n hollbwysig bod cymdeithasau tai yn dangos ymroddiad ac esiampl ar y daith i ddad-garboneiddio.



Mae ein datblygiad yn Maes Dulyn, Penygroes yn enghraifft o sut byddwn yn adeiladu tai i'r dyfodol.

- Pwyntiau i wefru ceir trydan
- Pwmpiau ffynhonnell aer i wresogi'r tai
- Insiwleiddio o'r safon uchaf
- Paneli solar



Paneli solar ar ystâd newydd Grŵp Cynefin yn Llain Y Delyn, Gwalchmai

Wardeiniaid Ynni

377
ymholiad gan
denantiaid



959
o geisiadau Warm
Home Discount
wedi eu cyflwyno
ar ran yr holl
breswylwyr
gan roi arbedion
o £134,260



10
o geisiadau
Dŵr Cymru wedi
eu cyflwyno gan
roi arbedion o
£1,480.



15
wedi derbyn
cymorth gyda'r broses
newid darparwr ynni
gydag arbediad
o £1,560.



“
Roedd cymorth y warden ynni wedi
bod yn werthfawr iawn a rwyf yn
llai ofnus o gwmpas defnydd ynni
tu fewn yr eiddo.
Eira



Gwobrau

Bu 2021-2022 yn flwyddyn o gydnabyddiaeth o waith rhagorol i Grŵp Cynefin.
Dyma rai o'n llwyddiannau...



UK Housing Awards

Yr Orsaf ym Mhenygroes yn ennill y wobr gyntaf 'Trawsnewid Cymdogaeth'.



Go North Wales Awards

Y Shed ennill y gwobr gyntaf am fod yn leoliad Cyfeillgar i Anifeiliaid Anwes yng ngwobrau 'Go North Wales'.



Gwobrau Sefydliad Tai Siartredig Cymru

1af Cyfathrebu mewn argyfwng – am gyfathrebu a chefnogi tenantiaid yn ystod y pandemig

1af Gwobr Rhagoriaeth mewn Iechyd a Llesiant – Prosiect Presgripsiwn Cymdeithasol Hwb Dinbych



Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer

Dyfarnwyd safon Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE) i Grŵp Cynefin yn 2021, sef dechrau ar daith ardystio tair blynedd.

Mae Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmer (CSE) yn safon a gydnabyddir yn genedlaethol a gynlluniwyd i ysgogi newid sy'n canolbwyntio ar y cwsmer, gan ymysg pethau eraill, helpu sefydliadau i gael gwell dealltwriaeth o anghenion eu cwsmeriaid.



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE®
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE

Tai Teg

TAI TEG
CYSYLLTU POBL GDYA CHYFLEON TAI
CONNECTING PEOPLE WITH HOUSING OPPORTUNITIES

Grŵp Cynefin yw gweinyddwyr cofrestr cartrefi fforddiadwy Tai Teg ar ran 13 o bartneriaid sy'n gyfuniad o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac Awdurdodau Lleol yng Ngogledd Cymru a Phowys.

Gwnaeth y tîm adrodd dros cyfnod Hydref 2021 - Mawrth 2022 bod nifer yr ymgeiswyr a fyddai'n hoffi cael eu hystyried ar gyfer rhent canolradd ac yn barod i ymgeisio yn 2,778 gan gynyddu o 670 o'i gymharu ag adroddiad Ebrill-Medi 2021.

Dros yr un cyfnod, adroddwyd bod nifer yr ymgeiswyr a fyddai'n hoffi cael eu hystyried ar gyfer perchnogaeth cartref ac yn barod i ymgeisio yn 1,891 ac yn gynyddu o 400 o'i gymharu ag adroddiad Ebrill-Medi 2021.

Bu cynnydd yn nifer yr ymgeiswyr sydd wedi'u cofrestru a'r gobaith yw parhau i hyrwyddo'r gofrestr trwy wefannau cyfryngau cymdeithasol ac annog pobl i gofrestru. Mae aelodau'r timau hefyd yn mynychu diwrnodau agored wyneb i wyneb hefo'r Hwyluswyr Tai Gwledig.

Hwyluswyr Tai Gwledig

Gwnaeth y tîm Hwyluswyr Tai Gwledig barhau i ymgysylltu â chymunedau, yn rhithiol ac yn fwy diweddar fe ddychwelwyd at ddigwyddiadau ymgynghori ac ymgysylltu wyneb yn wyneb wedi cyfnod Covid.

Eu hamcan yw adnabod yr anghenion tai fforddiadwy mewn ardaloedd gwledig yng Ngogledd Cymru, gan weithredu ar draws ardaloedd gwledig Conwy, Gwynedd a Môn. Y canlyniad yw galluogi pobl i aros yn eu cymunedau, adnabod cyfleoedd ar gyfer cydweithio gyda'r gymuned a chyfleu dymuniadau'r gymuned wrth ystyried unrhyw ddatblygiadau tai.



Dewiswyd Grŵp Cynefin i arwain ar brosiect pwysig Cynllun peilot Dwyfor, sy'n bartneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Cyngor Sir Gwynedd a Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'n ymateb i'r galw am weithredu brys i ddelio gydag'r argyfwng ail-gartrefi. Gyda swyddogion yn eu lle, mae'r prosiect nawr ar waith.

Cyfrannodd ein Prif Weithredwr at y drafodaeth gydag erthygl yn nghylchgrawn tai WHQ yn gynharach eleni.

Bwrdd Rheoli – aelodau ac ystadegau



Bwrdd Rheoli

- Carys Edwards (Cadeirydd)

Elen Williams (Is-Gadeirydd)

Mike Corfield

Geraint George

Julia Hughes

Llinos Iorwerth
- Tony Jones

Dafydd Lewis

Jane Lewis

Clifton Robinson

Siôn Fôn (aelod cyfetholedig)

Lesley Singleton (aelod cyfetholedig)

Ym mis Awst 2021, mabwysiadodd Grŵp Cynefin Reolau Cofrestredig newydd sydd wedi eu seilio ar Reolau Enghreifftiol 2021 Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae’r rheolau newydd hyn yn cyfyngu cyfnod gwasanaeth unrhyw aelod ar y Bwrdd Rheoli i naw mlynedd. Mae hyn ar sail ymarfer da mewn llywodraethu.

O fabwysiadu y rheolau newydd hyn, ildiodd dau aelod profiadol eu sedd ar y

Bwrdd Rheoli yn y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol ym mis Medi 2021. Fel rhan o gynllunio olyniaeth effeithiol aeth Grŵp Cynefin ati ar unwaith i recriwtio aelodau newydd. Cyn i hyn ddigwydd, cynhaliwyd asesiad sgiliau a profiad i sicrhau fod gan y Bwrdd Rheoli gyfuniad o sgiliau a phrofiad gwahanol i sicrhau llywodraethant effeithiol yn y dyfodol. O ganlyniad, cyfetholwyd dau aelod newydd i’r Bwrdd Rheoli ym mis Chwefror 2022.

Aelodau y Bwrdd Rheoli a’i Phwyllgorau @ 31.03.22

Pwyllgor Archwilio a Risg

- Mike Corfield (Cadeirydd)
- Geraint George (Is-Gadeirydd)
- Julia Hughes
- Tony Jones
- Tim Jones (cynrychiolydd Bwrdd Canllaw)
- Gwenan Carrington (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

Pwyllgor Gorwel

- Carys Edwards (Cadeirydd)
- Julia Hughes (Is-Gadeirydd)
- Dafydd Lewis
- Sara Evans (aelod annibynnol)

Pwyllgor Cyllid a Thwf

- Dafydd Lewis (Cadeirydd)
- Jane Lewis (Is-Gadeirydd)
- Tony Jones
- Elen Williams
- Paul Quirk (cynrychiolydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

Pwyllgor Rheolaeth Llywodraethu

- Carys Edwards (Cadeirydd)
- Elen Williams
- Mike Corfield
- Dafydd Lewis
- Clifton Robinson
- Tim Jones (Cadeirydd Bwrdd Canllaw)
- Gwynne Jones (Cadeirydd Bwrdd Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych)

Pwyllgor Cwsmeriaid a Chymunedau

- Clifton Robinson (Cadeirydd)
- Llinos Iorwerth
- Trudy Edwards
- Bob Jones
- Siaron Jones
- Garry Knight
- Janet Milligan
- Ianto Roberts
- Chris Schoen

Ystadegau Amrywiaeth Aelodau Bwrdd Rheoli

(ac eithrio aelodau cyfetholedig) 31.03.22

Oedran	Grŵp Cynefin
30-44	
45-64	10
65+	

Rhyw	Grŵp Cynefin
Benywaidd	5
Gwrywaidd	5

Tuedd Rhywiol	Grŵp Cynefin
Heterorywiol	10
Dewis peidio ateb	

Anabledd / Disability	Grŵp Cynefin
Oes	
Nac Oes	10
Dewis peidio ateb	

Tarddiad Ethnig / Ethnic Origin	Grŵp Cynefin
Gwyn	9
Du Prydeinig	1

Hunaniaeth Genedlaethol	Grŵp Cynefin
Prydeinig	4
Cymreig	6
Saesnig	

Sgiliau Cymraeg (siarad)	Grŵp Cynefin
Dim sgiliau	3
Yn gallu cynnal sgysiau sylfaenol drwy’r Gymraeg	1

Yn gallu cynnal sgysiau syml mewn perthynas â gwaith y bwrdd	1
Yn gallu cynnal y rhan fwyaf o sgysiau mewn perthynas â gwaith y bwrdd	
Rhugl	5

Sgiliau Cymraeg (ysgrifenedig)	Grŵp Cynefin
Dim sgiliau	2
Yn gallu darllen rhai geiriau a brawddegau syml a’u deall	3
Yn gallu darllen deunydd syml ar bynciau bob dydd a’i ddeall	
Yn deall yn llawn bob deunydd sy’n ymwneud â’r gwaith	5

Rydyn ni yn lwcus o fod ag aelodau eithriadol ar ein bwrdd – arbenigwyr profiadol yn eu maes. Mae hyn yn golygu trafodaeth iach, procio ac ymchwil a thrafodaeth drylwyr bob tro.

Carys Edwards
Cadeirydd Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin



Cyllid

Roedd perfformiad ariannol Grŵp Cynefin yn y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yn gryf, gyda gwarged o £1.7m am y flwyddyn ac asedau net gwerth £31.7m ar ddiwedd y flwyddyn. Gwnaeth hyn ganiatáu i ni gydymffurfio â chyfamodau ariannol ein benthycwyr a chydymffurfio â’n ‘Rheolau Aur’ ein hunain. Roedd yr asedau cyfredol net yn £12.2m ar 31 Mawrth 2022.

Roedd y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2022 yn un brysur iawn o ran y Strategaeth Trysorlys a’i gweithredu. Hyn oherwydd trefnu cytundebau benthycy sylweddol newydd ar ail-ariannu allweddol. Arwyddwyd Cytundeb Prynu Nodyn tymor hir newydd o £40m ym mis Awst 2021 a defnyddiwyd y gyfran gychwynnol o £30m (yn ogystal ag oddeutu £4m o arian parod) i ail-ariannu tua £34m o’r cyfleusterau tymor byr presennol. Hefyd, cytunwyd ar Gyfleuster Credyd sy’n Cylchdroi newydd gwerth £30m ym mis Awst 2021 sy’n ‘Fenthyciad sy’n Gysylltiedig â Chynaliadwyedd’ gyda’r tri targed Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethol y cytunwyd arnynt gyda’r benthyciwr. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol

roedd gan Grŵp Cynefin ddigon o hylifedd ar gyfer tua 36 mis, ac roedd y sefyllfa rhagfantoli oddeutu 90%. Mae Strategaeth Trysorlys 2022-23 yn adeiladu ar y sylfaen gadarn hon ac yn darparu hyblygrwydd i fod yn ymatebol i newid mewn amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Mae staff yn parhau i weithio’n ddidrugaredd i wella effeithlonrwydd y busnes a darparu gwell gwasanaethau i’w gwsmeriaid a’i gymunedau. Gwnaed cynnydd da o ran y broses gaffael yn 2020-21, gyda chymeradwyo Polisi Caffael newydd, sefydlu Fframwaith Caffael newydd a chael mynediad i lawer o Fframweithiau Caffael. Cymeradwywyd Cynllun Gweithredu Gwerth am Arian Strategol newydd hefyd yn 2020-21, gyda llawer o’r ffrydiau gwaith yn y cynllun wedi sefydlu eu hunain yn naturiol wrth i arferion gweithio newid dros nos i ymateb i’r pandemig. Mae ffordd newydd o weithio dros y flwyddyn ddiwethaf wedi galluogi Grŵp Cynefin i ddigideiddio llawer o brosesau, a gweithio o bell yn rhwydd. Heb os, bydd y prosesau newydd hyn yn sylfaen i ffordd fwy effeithlon ac effeithiol o weithio, a bydd arbedion o’r fath yn ein cynorthwyo i gyflawni mwy o ran gwerth cymdeithasol i denantiaid Grŵp Cynefin a’r cymunedau y mae’n eu gwasanaethu.



Bydd ffocws pellach yn cael ei roi ar arferion gwaith hyblyg ar gyfer y dyfodol, a cheisir arbedion effeithlonrwydd pellach trwy weithredu’r camau a amlinellir yn y Strategaeth Trawsnewid Digidol a’r Polisi Effeithlonrwydd ac Arbedion. Mae’r polisi newydd yn amlinellu ymrwymiad Grŵp Cynefin i symleiddio ein prosesau mewnol drwy benodi a hyfforddi Ymarferwyr Lean a Phencampwyr Lean, a thrwy ganolbwyntio ar ddau neu dri maes penodol o waith yn flynyddol.

Meddai Bryn Ellis, Cyfarwyddwr Adnoddau’r Grŵp: “Mae Grŵp Cynefin yn asesu ei effeithiolrwydd yn barhaus o ran Gwerth am Arian. Fel sefydliad â phwrpas cymdeithasol, rydym wedi ymrwymo i uchafu gwerth i’n tenantiaid, tenantiaid y dyfodol a’r gymuned

ehangach. Cyhoeddwyd Datganiad Gwerth am Arian blyneddol yn ystod y flwyddyn, a oedd yn pwysleisio’r gwerth ychwanegol mae Grŵp Cynefin yn ei ddarparu i’n tenantiaid a’n cwsmeriaid.”

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Ddyfarniad Rheoleiddio Interim o ran Grŵp Cynefin ym mis Rhagfyr 2020, a derbyniodd ddyfarniad ‘Safonol’ ar gyfer Llywodraethu a Gwasanaethau a Hyfywedd Ariannol. Mae’r Rheoleiddiwr o’r farn bod Grŵp Cynefin yn adnabod ac yn rheoli risgiau sy’n dod i’r amlwg yn briodol a’i fod yn bodloni ei ofynion hyfywedd ac yn meddu ar y gallu ariannol i ymdrin â sefyllfaoedd yn briodol.



Incwm £’000

- Rhenti
- Amorteiddio grant cyfalaf
- Gorwel
- Tâl Gwasanaeth
- Prosiectau eraill
- Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Canllaw (Eryri) Cyf
- Gwerthiannau eiddo
- Arall



20,624	66%
2,493	8%
2,465	8%
1,469	5%
1,328	4%
1,301	4%
1,134	4%
472	1%
22	0%



19,913	63%
2,461	8%
2,269	7%
1,382	4%
1,205	4%
1,264	4%
1,065	4%
1,791	6%
28	0%

Cyfanswm	31,308	100%	31,378	100%
----------	--------	------	--------	------



Gwariant £’000

- Cynnal a chadw’r stoc dai
- Costau staffio
- Llog Morgais
- Dibrisiant ac amhariad y stoc dai
- Prosiectau eraill
- Arall
- Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
- Canllaw (Eryri) Cyf
- Gwerthiannau eiddo



9,736	33%
5,261	18%
4,037	14%
3,594	12%
2,956	10%
1,891	6%
1,131	4%
1,042	3%
0	0%



8,347	29%
5,144	18%
3,496	12%
3,528	12%
2,722	9%
1,784	6%
1,129	4%
1,000	4%
1,740	6%

Cyfanswm	29,648	100%	28,890	100%
----------	--------	------	--------	------

Ein Perfformiad

	2021/22	2020/21	2019/20
 Canran y tenantiaid yn fodlon, neu’n fodlon iawn, â’r gwasanaethau a ddarperir gan Grŵp Cynefin	85%	87%	86%
 Nifer y galwadau a atebwyd gan Cyswllt Cynefin, ein canolfan gwasanaethau i gwsmeriaid	40,715	36,549	56,195
 Nifer y staff a gyflogir	267	266	257
 Nifer y staff cyfatebol i amser llawn	203	234	207
 Y nifer a gyflogir gan Canllaw a Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych	43	37	43
 Nifer y dyddiau i osod eiddo	34	55	26
 Nifer yr eiddo wedi’u gosod i denantiaid	319	285	384
 Canran ein cartrefi a basiodd Safon Ansawdd Tai Cymru yn ddarostyngedig i fethiannau derbyniol	100%	100%	100%
 Nifer yr ystafelloedd ymolchi newydd a osodwyd	44	30	41
 Nifer y ceginau newydd a osodwyd	55	27	37

	2021/22	2020/21	2019/20
 Nifer y boeleri newydd a osodwyd	69	120	87
 Enillion ariannol i’n tenantiaid trwy gyfrwng ein Tîm Lles	£1,001,820	£1,026,671	£938,347
 Canran y gwaith trwsio brys a gwblhawyd cyn pen 24 awr	98%	98%	99%
 Nifer y bobl a gynorthwywyd gan Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych a Canllaw (gwaith addasu)	7,229	5,502	7,643
 Cost cyfartalog gwaith trwsio	£150	£155	£135
 Nifer y defnyddwyr gwasanaeth a gefnogwyd gan wasanaethau cam-drin domestig ac atal digartrefedd	2025	1801	1701
 Canran y tenantiaid sydd wedi bod gyda ni am fwy na 10 mlynedd	43%	44.4%	40%
 Canran ein heiddo sy’n cynnwys nwy a gafodd archwiliad blynyddol erbyn y dyddiad penodol	99.9%	97.4%	99.9%
 Canran y colledion rhent oherwydd ôl-ddyledion rhent	2.17%	2.99%	3.01%
 Nifer yr achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol newydd	405	506	562
 Nifer y ceisiadau am waith trwsio	14,443	12,321	14,361
 Canran y gwaith trwsio a gwblhawyd yn unol â’r cyfnod amser targed	84%	84%	92%

Edrych Ymlaen

Wrth i'r Adroddiad Blyneddol hwn ddod i glo, mae darparu cyngor a chefnogaeth i'n tenantiaid, cwsmeriaid a cydweithwyr i wynebu'r argyfwng costau byw yn flaenoriaeth yr hydref a gaeaf hwn. Mae Grŵp Cynefin eisoes yn gwneud gwaith rhagorol yn cefnogi tenantiaid trwy'r timoedd lles, wardeiniaid ynni, canolfannau cymunedol ynghyd â chronfa caledi Grŵp Cynefin. Mae gennym bolisi i beidio troi tenantiaid o'u cartrefi am ddyledion rhent, ac ers mis Mawrth, mae ein swyddogion tai yn ymweld â'n tenantiaid o leiaf unwaith y flwyddyn.

Mae Grŵp Argyfwng Costau Byw yn cynnwys cynrychiolaeth ar draws y gymdeithas, gan gynnwys tenantiaid. Ffocws y grŵp yw sicrhau creu amcanion addas, a lobio llywodraeth ganolog a lleol lle bo hynny'n briodol.

Bydd Deddf Rhentu Cymru yn dod i rym fis Rhagfyr, yr un newid mwyaf i gyfraith tai yng Nghymru ers degawdau. Mae'r ddeddf yn cynnig gwell mesurau i amddiffyn tenantiaid ac yn datgan ac egluro eu hawliau a'u cyfrifoldebau. Mae'r gwaith trylwyr wedi ac yn parhau i gael ei wneud fel ein bod yn cydymffurfio gyda phob agwedd o'r ddeddf pan ddaw i rym ac yn gwneud yn siŵr bod ein tenantiaid yn deall oblygiadau'r ddeddf.

Cymeradwyodd Bwrdd Rheoli Grŵp Cynefin bolisi gosod rhent cymdeithasol newydd ym mis Tachwedd 2021. Mae'r polisi yn defnyddio methodoleg Model Rhenti Byw y Joseph Rowntree Foundation, i sicrhau fod y rhenti yn parhau i fod

yn fforddiadwy i'n tenantiaid. Mae'r polisi bellach yn weithredol ers Ebrill 1af. O'r dyddiad yma mae'r rhenti byw newydd yn cael eu defnyddio wrth ail-osod eiddo a gosod eiddo newydd ond mae'r polisi hefyd wedi ei ddefnyddio i adolygu y lefelau rhent cymdeithasol a fydd yn dod i rym o 1 Hydref 2022 ymlaen. Mae'r lefelau rhenti byw newydd yn gyson, ar gyfer yr un math o eiddo, ar draws yr ardal weithredol.

Byddwn yn parhau â'n gwaith o wneud addasiadau er mwyn lleihau effaith ein heiddo ar yr amgylchedd, gyda'n rhaglen ôl-osod barhaus a'r dulliau adeiladu carbon isel diweddaraf.

Mae ein cefnogaeth o'n tenantiaid a chwsmeriaid yn flaenoriaeth barhaus, beth bynnag yr hinsawdd, a pan ddaw heriau, fel Covid-19 er enghraifft, rydym mewn sefyllfa gref i ymateb yn addas ac effeithiol.

Mae argyfwng arall yn parhau, sef argyfwng tai gwledig, ac mae Grŵp Cynefin yn chwarae rhan ganolog fel partner allweddol yng Nghynllun Peilot Dwyfor, sydd bellach ar waith. Mae'r cynllun, partneriaeth Llywodraeth Cymru, Cyngor Gwynedd, Parc Cenedlaethol Eryri a Grŵp Cynefin, yn torri cwys newydd allai fod yn enghraifft o'r ffordd ymlaen yn genedlaethol i gyfarch yr argyfwng tai gwledig a phroblem ail gartrefi yn ein cymunedau.

Yn ychwanegol, cyhoeddwyd bod Prif Weithredwr Grŵp Cynefin wedi ei dewis i fod yn Aelod o Gomisiwn Cymunedau Cymraeg newydd Llywodraeth Cymru, fydd yn cael ei gadeirio gan Dr Simon Brooks. Gwnaethpwyd y cyhoeddiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol gan Weinidog y Gymraeg ag Addysg Llywodraeth Cymru, Jeremy



Jeremy Miles AS, Shan Lloyd Williams, Dr Simon Brooks

Miles. Mae hyn yn rhoi Grŵp Cynefin wrth galon y drafodaeth allweddol am gynaliadwyedd ieithyddol a'r defnydd o'r Gymraeg yn ein cymunedau ac yn gydnabyddiaeth o'n enw da ni fel cymdeithas a'n Prif Weithredwr.

Mae'n gyfnod cyffrous ym myd datblygu gyda'r gwaith wedi dechrau ar brosiect ehangu gwerth £12.2 miliwn i ddiweddarau ac ymestyn Cynllun Tai Gofal Ychwanegol Grŵp Cynefin yn Llys Awelon, Rhuthun.

Mae'r prosiect yn golygu ailddatblygu'r safle er mwyn creu cynllun modern, carbon isel pwrpasol i ddiwallu anghenion pobol hŷn yr ardal. Bydd y cynllun 21 o fflatiau presennol yn cynyddu o 35 fflat ychwanegol un a dwy ystafell wely ynghyd â chyfleusterau newydd sbon.

Mae'r prosiect yn bartneriaeth rhwng Cyngor Sir Ddinbych, Grŵp Cynefin a Llywodraeth Cymru ac yn cael ei gefnogi gan £7.1 miliwn o gyllid Rhaglen Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru.

Yn gynharach eleni, cwblhawyd pryniant o 53 o gartrefi ym Machynlleth a Llanbrynmair o reolaeth Wales & West Housing i Grŵp Cynefin. Mae cymryd rheolaeth o'r stoc, sy'n gyfuniad o dai cymdeithasol a thai gwarchod, yn golygu bod ardal Grŵp Cynefin yn fwy eang nag erioed.

O ran ein stoc tai, dros y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi canolbwyntio ar leihau'r rhestr o ôl-groniad o waith atgyweirio o ganlyniad i coronafeirws. Rydym wedi cynyddu maint ein tîm crefft mewnol ac rydym yn bwriadu parhau i dyfu ein tîm mewnol yn 2022/23.

Byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar gadw ein tenantiaid yn ddiogel yn eu cartrefi ac rydym wedi adolygu ein dull o reoli iechyd a diogelwch mewn meysydd allweddol fel diogelwch nwy a bydd y gwaith hwn yn parhau i 2022/23.

Rydym yn parhau i ail-osod eiddo ac wedi gwella ein hamseroedd ail-osod yn dilyn cyfnod heriol coronafeirws, tra'n cynnal ein safon gosod mewnol.

Mae gwaith adeiladu wedi dechrau hefyd ar safleoedd newydd yn Rhewl Fawr a Phenyffordd. Yn ogystal, bydd tenantiaid yn symud i'n stadau tai newydd ym Mhenygroes, Bethesda a Waunfawr ac wrth gwrs, bydd y gwaith yn mynd yn ei flaen i wireddu gweledigaeth uchelgeisiol Canolfan Lleu, gan gynnwys trigolion Dyffryn Nantlle ar bob cam o'r daith.

Blwyddyn brysur yn llawn heriau y byddwn yn eu hwynebu gydag egni a gweledigaeth trwy cydweithio.





Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing

Gallwn ddarparu gwybodaeth mewn amrywiol ddulliau gan gynnwys print, print bras, tâp sain a Braille. Cysylltwch â Grŵp Cynefin i gael cymorth pellach.

Mae Grŵp Cynefin yn gymdeithas gofrestrdig o dan Ddeddf Cymdeithasau Cydweithredol a Budd Cymunedol 2014 o dan rif 21194R ac mae'n gymdeithas dai elusennol sydd wedi'i chofrestru â Llywodraeth Cymru o dan y rhif L029.